# Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

| | |
|---|---|
| Meeting Venue: | **Ystafell Bwyllgora 3 - Y Senedd** |
| Meeting date: | **Dydd Mawrth, 4 Hydref 2011** |
| Meeting time: | **09: - 11:00** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

This meeting can be viewed on Senedd TV at:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_400000_04_10_2011&t=0&l=cy

## Concise Minutes:

| | |
|---|---|
| Assembly Members: | **Darren Millar (Cadeirydd)**<br>**Mohammad Asghar**<br>**Mike Hedges**<br>**Julie Morgan**<br>**Gwyn Price**<br>**Jenny Rathbone**<br>**Aled Roberts**<br>**Leanne Wood** |
| Witnesses: | **Thomas, Auditor General for Wales, Wales Audit Office**<br>**Dave Thomas, Swyddfa Archwilio Cymru**<br>**Ruth Marks, Comisiynydd Pobl Hyn Cymru**<br>**Rebecca Stafford, Policy Officer, Older People's Commissioner**<br>**Sarah Stone, Dirprwy Gomisiynydd Pobl Hyn Cymru** |
| Committee Staff: | **Bethan Webber (Clerc)**<br>**Daniel Collier (Dirprwy Glerc)**<br>**Joanest Jackson (Cynghorydd Cyfreithiol)** |

### 1. Ymddiheuriadau a dirprwyon

### 2. Materion sy'n ymwneud â Llywodraethiant ac Atebolrwydd Archwilydd Cyffredinol Cymru

2.1 Cafodd Grŵp Gorchwyl a Gorffen ei sefydlu gan y Pwyllgor o dan Reol Sefydlog 17.17 i ystyried materion llywodraethiant ac atebolrwydd mewn perthynas ag Archwilydd Cyffredinol Cymru.

2.2 Cytunodd y Pwyllgor mai cylch gorchwyl y Grŵp Gorchwyl a Gorffen fydd cynghori'r Cynulliad ynghylch penodi archwilwyr i edrych ar gyfrifon Archwilydd Cyffredinol Cymru; ystyried amcangyfrif a chyfrifon blynyddol Archwilydd Cyffredinol Cymru; ystyried materion ynghylch llywodraethiant ac atebolrwydd Archwilydd Cyffredinol Cymru; ystyried materion ynghylch enwebu Archwilydd Cyffredinol Cymru; ac ystyried materion eraill a drosglwyddir i'r grŵp gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus.

2.3 Cytunodd y Pwyllgor mai cyfnod y Grŵp Gorchwyl a Gorffen fydd y flwyddyn Cynulliad o 2011 i 2012, a daw i ben ar 20 Gorffennaf 2012.

2.4 Cytunodd y Pwyllgor y byddai'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cynnwys yr Aelodau a ganlyn: Darren Millar AC, Mike Hedges AC, Aled Roberts AC a Leanne Wood AC. Cafodd Darren Millar ei ethol yn Gadeirydd gan y Pwyllgor, ond bydd y rôl hon yn cael ei rhannu gan yr Aelodau.

## 3. Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar Arlwyo a Maeth Cleifion mewn Ysbytai

3.1 Croesawyd Ruth Marks, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru; Sarah Stone, Dirprwy Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru; a Rebecca Stafford, Swyddog Polisi, i gyfarfod y Pwyllgor.

3.2 Hefyd, croesawyd Huw Vaughan Thomas, Archwilydd Cyffredinol Cymru, a Dave Thomas o Swyddfa Archwilio Cymru, i'r cyfarfod.

3.3 Bu'r Pwyllgor yn holi'r tystion.

**Camau i'w cymryd:**

Cytunodd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru i ddarparu:

- gwybodaeth ychwanegol am ganfyddiadau'r adroddiad ar urddas mewn gofal;
- canlyniadau'r gwerthusiad o gynllun Robin yn y Gogledd; a
- gwybodaeth ychwanegol am arferion da sy'n cael eu rhoi ar waith gan ysbytai, yn enwedig y model cadw tŷ.

Cytunodd Archwilydd Cyffredinol Cymru i ddarparu:

- crynodeb o arferion da.

**PAPUR I'W NODI**
Cytunodd y Pwyllgor i wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer eitemau 4 a 5 yn unol â Rheol Sefydlog 17.42(vi).

**TRAWSGRIFIAD**
Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.